Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf – Cyngor Sir Fynwy


Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4208A2024

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Fynwy fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae trefniadau rheoli'r rhaglen gyfalaf yn dangos rhai cryfderau ond ceir diffyg ffocws ar ddeilliannau ac effaith.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae trefniadau rheoli'r rhaglen gyfalaf yn dangos rhai cryfderau, ond ceir diffyg ffocws ar ddeilliannau ac effaith 9

Mae trefniadau cynllunio'n gadarn fel rheol ond nid oes gan y rhaglen gyfalaf ddeilliannau eglur 9

Mae trefniadau monitro'n canolbwyntio ar gyllidebau a graddfeydd amser gydag ystyriaeth gyfyngedig i effaith neu wersi 11

Atodiadau

Atodiad 1 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor i reoli ei raglen gyfalaf. Fe wnaethom ystyried sut y mae'r Cyngor yn dylunio'i raglen gyfalaf, sut y mae'n monitro'r modd y cyflawnir y rhaglen a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau. Fe wnaethom hefyd ystyried y risgiau a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu mewn perthynas â dylunio a chyflawni'r rhaglen gyfalaf.

2 Mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â buddsoddiadau mewn asedau megis adeiladau a seilwaith trafnidiaeth. Gall gynnwys prynu neu adeiladu asedau, ond hefyd eu cynnal a'u cadw a'u gwella. Mae gwariant cyfalaf yn gyfran sylweddol o wariant llywodraeth leol: ledled Cymru, rhagwelodd cynghorau wariant cyfalaf o ychydig o dan £2.2 biliwn yn ystod 2022-23[1] ac roedd gwariant alldro cyfalaf ar gyfer 2022-23 oddeutu £1.5 biliwn[2].

3 Yn Sir Fynwy, rhagwelodd y Cyngor wariant cyfalaf o oddeutu £44 miliwn yn ystod 2023-24 a gwariodd £45.7 miliwn ar brosiectau cyfalaf yn 2022-23. Mae **Arddangosyn 1** isod yn dangos bod cyfanswm gwariant cyfalaf y Cyngor rhwng 2012-13 a 2022-23 bron â bod yn £350 miliwn[3].


[1] Cyfalaf a Ragwelir, yn ôl gwasanaeth (llyw.cymru)

[2] Gwariant alldro cyfalaf, yn ôl awdurdod (llyw.cymru)

[3] Roedd gwariant cyfalaf y Cyngor yn uwch nag arfer yn 2016-17, 2017-18 a 2022-23, oherwydd buddsoddiad yn adeiladau ysgolion fel rhan o brosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif. Fe wnaeth hefyd brynu Parc Hamdden Casnewydd a Pharc Busnes Castlegate fel eiddo buddsoddi yn ystod 2018-19.

**Arddangosyn 1: gwariant cyfalaf rhwng 2012-13 a 2022-23**[4]

Mae'r siart isod yn nodi faint wariodd y Cyngor ar brosiectau cyfalaf rhwng 2012-13 a 2022-23.





4 Ariennir y rhan fwyaf o wariant cyfalaf â grantiau, derbyniadau cyfalaf (o werthu asedau eraill) a benthyca darbodus. Dengys **Arddangosyn 2** fod y ffordd yr ariennir prosiectau cyfalaf yn amrywio rhwng blynyddoedd yn ôl argaeledd gwahanol ffynonellau cyllid. Dros y blynyddoedd diwethaf, grantiau fu prif ffynhonnell y cyllid, gan roi cyfrif am 67% (£30.5 miliwn) o gyfanswm y cyllid yn 2022-23. Mae hyn yn adlewyrchu amseriad a gwerth cynlluniau grant a oedd ar gael yn y blynyddoedd hynny. O'i gyferbynnu, dim ond 26% (£6 miliwn) o wariant cyfalaf a ariannwyd gan grantiau yn 2012-13, pan mai benthyca oedd y brif ffynhonnell incwm: 61% (£13.9 miliwn).

[4] Gwariant alldro cyfalaf, yn ôl awdurdod (£ mil) (llyw.cymru)

**Arddangosyn 2: ffynonellau cyllid gwariant cyfalaf rhwng 2012-13 a 2022-23[5]**

Mae'r siart isod yn nodi sut y gwnaeth y Cyngor ariannu ei brosiectau cyfalaf rhwng 2012-13 a 2022-23.




5 Mae cyllid o fenthyca a derbyniadau cyfalaf yn rhoi mwy o reolaeth i'r Cyngor ar ei raglen gyfalaf, gan bod cyllid grant yn aml yn amodol ar feini prawf caeth o ran pa brosiectau cyfalaf ellir eu hariannu. Ond cyfyngir ar fenthyca a derbyniadau cyfalaf oherwydd eu fforddiadwyedd a'u hargaeledd. Mae'r Strategaeth Gyfalaf gyfredol yn nodi bod gan y Cyngor £188.1 miliwn o fenthyciadau a £38.3 miliwn o fuddsoddiadau trysorlys[6] sy'n deillio o wariant cyfalaf hanesyddol. Mae cyllido'r benthyciadau hyn yn dwyn goblygiadau hirdymor ar gyfer y gyllideb refeniw ac mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i gyfyngu ar fenthyca pellach i sicrhau bod ad-daliadau'n fforddiadwy.

6 Caiff derbyniadau cyfalaf eu creu o werthu asedau presennol ac felly bydd argaeledd cyllid yn amrywio. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd sylweddol o gyfarwyddeb Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf yn hyblyg. Mae hyn yn caniatáu iddo ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant refeniw a fydd yn creu arbedion parhaus neu'n lleihau costau refeniw dros y tymor canolig a hir. Fe wnaethom nodi yn ein Hasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol yn 2021, er bod defnyddio'r gyfarwyddeb wedi helpu i

[5] Cyllido alldro cyfalaf, yn ôl ffynhonnell y cyllid (£ mil) (llyw.cymru)

[6] O ran y sefyllfa ym mis Rhagfyr 2022.

leddfu'r pwysau ar gyllidebau refeniw yn y tymor byr, bod hynny'n effeithio ar allu'r Cyngor i ariannu prosiectau cyfalaf dros y tymor canolig a hir.

7 O ystyried effaith ariannol fyrdymor a hirdymor y rhaglen gyfalaf, mae'n bwysig bod gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau bod ei wariant cyfalaf yn sicrhau gwerth am arian. Hefyd, gan bod prosiectau cyfalaf yn aml wedi'u bwriadu i wireddu manteision dros raddfa amser hir, mae lawn cyn bwysiced bod y Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gynllunio a chyflawni ei raglenni cyfalaf.

8 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023. Fe ddefnyddiom ni dri phrosiect cyfalaf fel meysydd olrhain i archwilio'r trefniadau a oedd ar waith, sef:

- Adeiladu Neuadd Gymunedol Magwyr a Gwndy;
- Adeiladu cartref gofal Crick Road; a
- Gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio i Ysgol Cas-gwent (gosod ffenestri newydd).

## Yr hyn a ganfuom

9 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran dylunio a chyflawni ei raglen gyfalaf?

10 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae trefniadau rheoli'r rhaglen gyfalaf yn dangos rhai cryfderau ond ceir diffyg ffocws ar ddeilliannau ac effaith. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae trefniadau cynllunio'n gadarn fel rheol, ond nid oes gan y rhaglen gyfalaf ddeilliannau eglur; ac
- mae trefniadau monitro'n canolbwyntio ar gyllidebau a graddfeydd amser gydag ystyriaeth gyfyngedig i effaith neu wersi.

## Argymhellion

**Arddangosyn 3: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

**Pennu deilliannau ac adrodd arnynt**

A1 Dylai'r Cyngor fynegi'r canlynol yn glir yn ei Strategaeth Gyfalaf:

- y deilliannau y mae'n ceisio'u cyflawni o'i raglen gyfalaf a sut y gall prosiectau unigol gyfrannu at y rhain;
- sut y bydd llwyddiant yn edrych; a
- sut y bydd yn mesur hyn.

| | |
|---|---|
| | Bydd hyn yn darparu strwythur mwy eglur ar gyfer monitro, ac yn helpu'r Cyngor i ddangos a yw ei raglen gyfalaf yn darparu gwerth am arian. |
| A2 | Dylai'r Cyngor adrodd ar gynnydd yn erbyn deilliannau arfaethedig y rhaglen gyfalaf fel bod aelodau'n gallu craffu a chael sicrwydd. |

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau rheoli'r rhaglen gyfalaf yn dangos rhai cryfderau ond ceir diffyg ffocws ar ddeilliannau ac effaith

### Mae trefniadau cynllunio'n gadarn fel rheol, ond nid oes gan y rhaglen gyfalaf ddeilliannau eglur

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

12 **Mae'r modd y caiff rhanddeiliaid eu cynnwys yn briodol a chymesur**. Mae'r ymgynghoriad blynyddol ar y gyllideb yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd, staff ac aelodau etholedig rannu eu barn ynglŷn â'r gyllideb gyfalaf ddrafft. Gwelsom hefyd enghreifftiau o'r Cyngor yn addasu'r rhaglen gyfalaf mewn ymateb i'r adborth hwnnw, e.e. cynyddu cyllid i atgyweirio tyllau mewn ffyrdd yn 2023-24.

13 Ar lefel prosiectau, canfuom enghreifftiau cryf o gynnwys rhanddeiliaid. Er enghraifft, fe ymgynghorwyd yn helaeth â'r cyhoedd, dan arweiniad grŵp cymunedol lleol, i oleuo'r prosiect i adeiladu'r neuadd gymunedol. Yn ystod y prosiect cartref gofal, fe ymgysylltodd y Cyngor yn rheolaidd â theuluoedd preswylwyr hefyd ac fe helpodd staff i siapio dyluniad yr adeilad. Er mai cyfyngedig oedd gweithgarwch cynnwys rhanddeiliaid mewn perthynas â newid ffenestri Ysgol Cas-gwent, roedd hyn yn gymesur â'r prosiect.

14 **Ceir trefniadau cadarn i flaenoriaethu prosiectau cyfalaf**. Mae matrics blaenoriaeth yn nodi'r meini prawf a ddefnyddir gan y Cyngor i ystyried prosiectau cyfalaf posibl. Mae'r matrics yn blaenoriaethu gwariant ar gynlluniau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, a rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol. Mae hefyd yn rhoi blaenoriaeth uchel i brosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor. Amodau grant sy'n pennu ffocws prosiectau a ariennir â chyllid grant, ond yn aml ceir aliniad â blaenoriaethau'r Cyngor, e.e. cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio'r matrics blaenoriaeth i sicrhau bod cyllid cyfatebol yn mynd i geisiadau am grant sy'n cyfrannu at ei amcanion ei hun.

15 Ar lefel prosiectau, mae prosiectau'r neuadd gymunedol a'r cartref gofal yn dangos cysylltiadau â blaenoriaethau'r Cyngor, tra bo newid y ffenestri'n flaenoriaeth iechyd a diogelwch a oleuwyd gan arolwg annibynnol o gyflwr yr adeilad.

16 **Nid oes gan y rhaglen gyfalaf feini prawf llwyddiant**. O ganlyniad, nid yw'n glir beth y mae ar y Cyngor eisiau ei gyflawni o'i raglen gyfalaf ar y cyfan na sut y bydd yn mesur hyn. Trwy ddiffinio'n glir pa ddeilliannau y mae arno eisiau eu cyflawni a nodi mesurau priodol, bydd y Cyngor mewn sefyllfa well i fonitro cynnydd ac asesu i ba raddau y mae'r rhaglen a gwblhawyd yn darparu gwerth am arian ac yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cyngor. Rydym yn deall bod y Cyngor yn bwriadu cyflwyno trefniadau tebyg i ddangos manteision ei ddefnydd hyblyg o dderbyniadau cyfalaf. Mae hwn yn gam cadarnhaol tuag at gryfhau trefniadau ond dylid ei gyflwyno i bob math o wariant cyfalaf.

17 **Mae'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i gyflawni ei raglen gyfalaf**. Mae'r prosiectau olrhain yn dangos swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr mewnol. Er enghraifft, mae'r cynllun cartref gofal yn cael ei reoli

fel prosiect ar y cyd gan swyddogion o’r Adran Ystadau a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan alluogi’r ddau i gynnig eu harbenigedd eu hunain i’r prosiect. Bu’r Cyngor hefyd yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid allanol megis penseiri, cwmnïau adeiladu, y Bwrdd Iechyd lleol, grwpiau cymunedol a’r trydydd sector. Helpodd byrddau prosiect a grwpiau rhanddeiliaid i sicrhau cyfathrebu rheolaidd rhwng partneriaid ar y ddau brosiect olrhain adeiladu.

18 Mae cyllid cyfalaf a refeniw y mae ei angen i gyflawni’r Strategaeth Gyfalaf dros y tymor byr a chanolig wedi’i nodi’n glir yn y gyllideb gyfalaf flynyddol ond mae ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw heb ei gyllido’n dal i fodoli. Dros y cyfnod rhwng 2023-24 a 2026-27, mae’r Cyngor wedi cynllunio gwariant o £103 miliwn. Mae bron i 75% o’r cyfanswm hwnnw wedi’i gyllidebu yn nwy flynedd gyntaf y cynllun. Ar ôl hyn, mae cynlluniau ysgolion arfaethedig a defnydd o’r gyfarwyddeb cyfalafu’n lleihau, gan arwain at gyllideb flynyddol sy’n llai o lawer.

19 Dim ond cynlluniau a ariennir y mae’r rhaglen gyfalaf tymor canolig yn eu cynnwys. Mae’r Cyngor wedi adnabod ôl-groniad gwerth £52 miliwn o waith cynnal a chadw nad yw’n gallu ei ariannu. Er bod y matrics sgorio’n rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw risg uwch, mae’r ôl-groniad yn dal i fod yn risg allweddol ac mae oedi cyn gwneud gwaith cynnal a chadw yn aml yn arwain at ddirywiad pellach a allai arwain at gostau uwch yn y dyfodol. Er bod y Strategaeth Gyfalaf a’r gofrestr risgiau’n cydnabod y risg hon, nid ydynt yn meintioli cost hirdymor bosibl y gwaith cyfalaf heb ei ariannu.

20 Mae’r Strategaeth yn ystyried costau refeniw tymor hwy gwariant cyfalaf; mae costau cyllido ar gyfer benthyciadau presennol wedi’u gwasgaru dros yr isaf o 50 mlynedd ac oes ddisgwyliedig yr ased a ariennir. Mae’r Strategaeth Gyfalaf ac adroddiadau monitro’r gyllideb yn cydnabod yr angen am bwyll mewn perthynas â benthyca a defnyddio derbyniadau cyfalaf heb eu bancio. Mae hyn yn ddarbodus yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y Cyngor a’r angen i sicrhau bod costau cyllid yn fforddiadwy dros yr hirdymor.

21 Ar lefel prosiectau, canfuom fod gan y Cyngor drefniadau priodol i adnabod costau cyflawni, gan eu diwygio lle y bo angen mewn ymateb i gostau cynyddol a materion annisgwyl. Er bod lefelau uchel iawn o chwyddiant wedi effeithio ar gostau adeiladu’r cartref gofal, roedd y Cyngor yn gallu lleihau’r effaith ariannol i’r eithaf trwy beirianneg gwerth a rheoli’r contract yn effeithiol. Llwyddodd hefyd i sicrhau cyllid grant ychwanegol i dalu’r costau uwch. Mae ystyriaeth i oblygiadau costau parhaus yn amrywio fesul prosiect. Er bod achos busnes y cartref gofal yn nodi arbedion refeniw blynyddol a ragwelir mewn costau ynni a staffio, ni welsom unrhyw ffigyrau i ddangos effaith dyluniad ynni-effeithlon y neuadd gymunedol ar gostau rhedeg.

22 Mae’r Gofrestr Risgiau Strategol a’r Strategaeth Gyfalaf yn dangos dealltwriaeth dda am risgiau sy’n ymwneud ag argaeledd cyllid cyfalaf. Mae gan y Cyngor hefyd drefniadau priodol i adnabod a monitro risgiau ar lefel prosiectau. Canfuom fod cofrestrau risgiau prosiectau’n bodoli ar gyfer y ddau brosiect adeiladu ac y ceir diweddariadau a thrafodaethau rheolaidd am risgiau yng nghyfarfodydd y bwrdd ac yn ystod ymweliadau â’r safleoedd.

## Mae trefniadau monitro'n canolbwyntio ar gyllidebau a graddfeydd amser gydag ystyriaeth gyfyngedig i effaith neu wersi

23 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

24 **Mae adroddiadau ar gyllidebau'n monitro cost ac amseroldeb cyflawni'r rhaglen gyfalaf**. Mae'r rhain yn nodi'n glir beth yw'r alldro a ragwelir, llithriant dros dro ac addasiadau eraill i'r gyllideb. Darperir esboniadau byr ar gyfer cynlluniau â llithriant a thanwariannau / gorwariannau, ac mae aelodau'n cael y cyfle i graffu. Yn sail i'r adroddiadau hyn ceir rhestr fanylach o'r holl gynlluniau cyfalaf, sydd hefyd yn cynnwys y sefyllfa a ragwelir ac esboniadau dros amrywiannau. Lle mae prosiect yn rhagweld gorwariant yna rhaid adnabod cyllid. Mae'r Cyngor hefyd yn dwyn deiliaid cyllidebau i gyfrif yng nghyfarfodydd timau rheoli cyfarwyddiaethau.

25 **Mae gan y rhaglen gyfalaf lefel uchel o lithriannau**. Fe wnaeth effaith y pandemig ar gadwyni cyflenwi ac argaeledd llafur barhau i effeithio ar gwblhau prosiectau yn 2022-23. Ar y cyfan, llithrodd cynlluniau â chyfanswm gwerth o £33 miliwn i mewn i'r flwyddyn ganlynol, gan gynnwys nifer o brosiectau gwerth uchel. Mae hyn yn 42% o gyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer y flwyddyn. Yn 2023-24, mae'r Cyngor yn rhagweld llithriant o £11.9 miliwn (13%). Fe wnaethom adolygu'r rhesymau dros lithriannau yn 2023-24 a chanfod, er bod rhai i'w priodoli i ffactorau allanol, bod eraill o fewn rheolaeth y Cyngor. Er enghraifft, gallai oedi mewn perthynas â chynllunio, ymgynghori â'r cyhoedd a gwaith ymchwiliadol gofynnol gael ei liniaru trwy broffilio mwy cywir sy'n ystyried capasiti mewnol a gwersi o brosiectau blaenorol. Mae uwch swyddogion hefyd yn cydnabod yr angen i faterion proffilio a llithriannau gael eu herio'n fwy cadarn ac amserol. Byddai o fudd i'r Cyngor ddadansoddi'r rheswm dros lithriannau cyfredol i adnabod unrhyw themâu a phenderfynu pa gamau gweithredu y gall eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau sy'n llithro i mewn i flynyddoedd yn y dyfodol gael eu hailasesu i sicrhau eu bod yn dal i fod yn flaenoriaeth ac yn dal i fod yn fforddiadwy o fewn cyllidebau a bennwyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried heriau diweddar mewn perthynas â chwyddiant a tharfu ar gadwyni cyflenwi.

26 Nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n ffurfiol i adolygu'r rhaglen gyfalaf a gwblhawyd i ystyried effaith prosiectau yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor. Fel a nodwyd uchod, nid yw'r Cyngor yn nodi'r manteision y mae'n gobeithio eu cyflawni o'i raglen gyfalaf ar y cyfan. Mae hyn yn ei gwneud yn anos adolygu deilliannau a dangos effaith gwariant cyfalaf. Dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn myfyrio'n anffurfiol ar gyflawniadau a'i bod yn ofynnol i'r Cyngor ddangos deilliannau fel rhan o amodau cyllid grant ar gyfer prosiectau unigol, ond nid yw aelodau'n cael sicrwydd ar hyn o bryd bod y rhaglen gyfalaf wedi cyflawni ei manteision bwriadedig. Felly dylai'r Cyngor ystyried sut y gall ddangos effaith a gwerth ei raglen gyfalaf, fel bod aelodau'n cael y cyfle i graffu ar ei heffeithiolrwydd.

27 **Mae'r broses o ddysgu gwersi'n anffurfiol fel rheol, a allai greu risg nad yw'r holl bobl berthnasol yn cael mynediad ati**. Dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn myfyrio ynghylch trefniadau rheoli'r rhaglen gyfalaf yn flynyddol fel rhan o broses y gyllideb ac wrth bennu'r strategaeth gyfalaf newydd. Roeddent hefyd yn gallu mynegi gwendidau yn y trefniadau cyfredol a darparu enghreifftiau o wersi a

ddysgwyd o brosiectau cyfalaf diweddar. Ond byddai o fudd cofnodi'r gwersi hyn mewn fformat sy'n ei gwneud yn bosibl eu rhannu'n fwy eang.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

**Arddangosyn 4: cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio y gwnaethom eu defnyddio i lunio ein canfyddiadau.

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio[7] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| 2.1 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i gynllunio ei raglen gyfalaf? | • Wrth ddatblygu ei raglen a'i strategaeth gyfalaf mae'r Cyngor:<br>– yn cynnwys briodol ac amrywiaeth ystod o leisiau (gan gynnwys sefydliadau eraill), gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig;<br>– yn ystyried sut y bydd yn cyrraedd nodau tymor hwy (h.y. ei amcanion llesiant) a sut y gall gyflawni ystod o fanteision;<br>– yn nodi'r deilliannau y mae'n ceisio eu cyflawni a sut y bydd yn monitro'r modd y cânt eu cyflawni<br>– yn adnabod yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth dros y tymor byr, canolig a hwy.<br>• Wrth gynllunio prosiectau cyfalaf unigol, mae'r Cyngor:<br>– yn cynnwys ystod ac amrywiaeth briodol o leisiau;<br>– yn ystyried sut y bydd yn cyrraedd nodau tymor hwy (h.y. y rhai yn y strategaeth a'i amcanion llesiant) a sut y gall gyflawni ystod o fanteision;<br>– yn gweithio gydag eraill (yn fewnol ac yn allanol) i gyflawni'r manteision hynny;<br>– yn nodi'r deilliannau y mae'n ceisio eu cyflawni a sut y bydd yn mesur gwerth am arian y prosiect dros y tymor byr, canolig a hir;<br>– yn adnabod yr adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni'r prosiect dros y tymor byr, canolig a hwy (costau oes gyfan) a sut y bydd yn rheoli risgiau/cwrdd â'r costau hynny; |

[7] Mae ein meini prawf archwilio wedi cael eu goleuo gan ein gwybodaeth gronnus am waith archwilio blaenorol, yn ogystal â'r hierarchaeth cwestiynau a dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i ategu ein harchwiliadau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio[7] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| | – yn adnabod risgiau allweddol i'r prosiect a sut y byddant yn cael eu rheoli; ac<br>– yn nodi graddfeydd amser eglur ar gyfer cyflawni. |
| 2.2 A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i fonitro'r modd y cyflawnir ei raglen gyfalaf? | • Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r modd y cyflawnir ei raglen gyfalaf o safbwynt gwerth am arian gan gynnwys:<br>– cyflawni prosiectau ar amser ac o fewn y gyllideb;<br>– effaith prosiectau a gwblhawyd mewn perthynas ag amcanion tymor byr, canolig a hir y Cyngor;<br>– cymryd camau gweithredu effeithiol lle nad yw prosiectau'n cael eu cyflawni o fewn y gyllideb a/neu ar amser; ac<br>– mae gan y Cyngor hanes o gyflawni prosiectau ar amser ac o fewn y gyllideb. |
| 2.3 A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o'i ddull o reoli ei raglen gyfalaf? | • Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu effeithiolrwydd trefniadau rheoli'r rhaglen gyfalaf gan gynnwys:<br>– darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau o ran helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.<br>• Mae'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd o ddatblygu a chyflawni ei raglen gyfalaf ac yn eu rhoi ar waith yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle y bo'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.